addysg
i bawb

Mynd i'r afael â homoffobia mewn ysgolion

ADDYSG I BAWB

Stonewall

Mae bwlio yn achosi niwed parhaol i bobl ifanc ac mae'n difetha'r ysgolion a'r colegau lle mae'n digwydd. Mae bwlio homoffobig yn un o'r ffurfiau mwyaf cudd o fwlio. Ond nid mater hoyw yn unig ydyw. Mae homoffobia'n effeithio ar bob disgybl ac ar bob myfyriwr – boed hwy'n lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n strêt.

Mae'n rhaid i ymgyrchoedd gwrth-fwlio ddeall hyn, a mynd i'r afael ag ef. Mae gwneud i bob person ifanc deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi - beth bynnag y bo eu rhywioldeb - yn gyfle pwysig i'n system addysg weddnewid bywydau nifer sylweddol o ddisgyblion a myfyrwyr.

Beth sydd o'i le?

Mae bwlio homoffobig yn rhemp yn ysgolion Prydain.

- Dywed pedwar o bob pump athro/awes ysgol uwchradd eu bod yn ymwybodol o fwlio homoffobig llafar.
- Mae un o bob pedwar athro/awes ysgol uwchradd yn ymwybodol o fwlio homoffobig corfforol.
- Dim ond 6 y cant o ysgolion Prydain sydd â pholisïau gwrth-fwlio cwbl gynhwysol sy'n mynd i'r afael â bwlio homoffobig.

Pa effaith y mae hyn yn ei chael ar addysg myfyrwyr?

- Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw yn fwy tebygol o adael yr ysgol yn 16 oed, er eu bod wedi cael marciau digon da i barhau â'u haddysg.
- Mae dau o bob pump yn dweud eu bod yn ofni y byddai'r bwlio'n parhau pe baent yn aros.
- Mae tri o bob pedwar person ifanc lesbiaidd a hoyw yn dweud iddynt smalio eu bod yn sâl neu chwarae triwant er mwyn dianc rhag effeithiau bwlio.
- Nid dim ond pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n dioddef effeithiau bwlio homoffobig. Gall diwylliant addysgol lle ceir bwlio homoffobig effeithio ar unrhyw un a bennir yn wahanol. Mae diwylliant lle ceir unrhyw fath o fwlio yn gwneud ysgolion yn llefydd lle nad oes neb yn ddiogel.

Deg cam y gall ysgolion eu cymryd i greu diwylliant cynhwysol

1 Cydnabod a chlustnodi'r broblem o fwlio

Y cam pwysicaf yw cydnabod fod pob math o fwlio yn digwydd mewn ysgolion. Gall bwlio homoffobig fod yn gudd. Os ydych chi'n cofnodi achosion o fwlio hiliol, gallwch wneud yr un peth gyda bwlio sydd â seiliau homoffobig.

2 Datblygu polisïau sy'n cydnabod bodolaeth bwlio homoffobig

Cyfeiriwch at gyfarwyddyd cenedlaethol sy'n nodi bod modd i ysgolion fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol yn ogystal â bwlio. Cymrwch gamau gweithredu priodol eraill, megis herio'r defnydd o'r gair 'hoyw', a sicrhau bod graffiti'n cael ei lanhau'n gyflym ac yn llwyr.

3 Hyrwyddo amgylchedd cymdeithasol cadarnhaol

Bydd ethos ysgol - a honno wedi ei rhannu gyda rhieni yn ogystal â chydag athrawon - yn dylanwadu ar yr hyn y gellir ei wneud i gefnogi disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol, yn ogystal â mynd i'r afael â bwlio homoffobig.

4 Mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi staff

Gall delio â disgyblion hoyw, a homoffobia a bwlio, fod yn anodd i rai aelodau o staff. Peidiwch â chymryd mai athrawon lesbiaidd, hoyw a deurywiol yw'r bobl orau, bob tro, i ddelio â materion o'r fath. Mae'n aml yn fwy anodd iddyn nhw.

5 Rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i ddisgyblion

Mae llawer o ddisgyblion yn ei chael hi'n anodd trafod materion lesbiaidd a hoyw gydag athrawon. Allwch chi ddangos gwybodaeth am wasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael i bob disgybl trwy gyfrwng hysbysfyrddau, dyddiaduron ysgol, gwefannau?

‘Roedd y syniad o fynd i’r ysgol yn fy ngwneud i’n gorfforol sâl ... byddwn yn casglu fy llyfrau ac yn smalio mynd i’r ysgol, ond yr eiliad roeddwn i heibio’r gornel, rown i’n anelu’n syth am fy nghuddfan.’

Beth yw'r sefyllfa gyfreithiol?

- Ni fu Adran 28 Deddf Llywodraeth Leol 1988 erioed yn berthnasol i ysgolion, ac mae wedi ei diddymu erbyn hyn. Mae athrawon yn gwbl rydd i drafod homoffobia gyda’r myfyrwyr yn eu dosbarth.

Cymru a Lloegr

- Mae dyletswydd o ofal ar ysgolion y wladwriaeth i sicrhau diogelwch ac amddiffyn lles emosiynol pob person dan eu gofal. Deddf Plant 1989
- Mae hi’n ofynnol ar benaethiaid i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy’n atal pob math o harasio. Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998

Yr Alban

- Rhaid i ysgolion fod â chynllun blynyddol sy’n annog cyfle cyfartal. Deddf Safonau yn Ysgolion yr Alban 2000
- Dylai pob disgybl elwa ar addysg. Dylent ddysgu i barchu eu hunain, ei gilydd a’u cymdogaeth a’u cymdeithas. Blaenoriaethau cenedlaethol mewn addysg (Yr Alban)

Beth all eich ysgol neu’ch coleg chi ei wneud?

Gall gweithgareddau gwrth-fwlio wella ymddygiad disgyblion, a helpu i hoelio sylw ar y cysylltiadau rhwng cydberthnasau cymdeithasol a chyflawniad cymdeithasol, a chyfrannu at wella’r ysgol a’i gwneud yn fwy effeithiol.

Yn aml, nid yw athrawon a rhieni yn ymwybodol o natur ac ehangder y math yma o fwlio’n benodol. Mae disgyblion eraill yn aml yn gyndyn i gael eu tynnu i mewn, a dydyn nhw ddim yn gwybod sut i helpu. Mae ymyriadau effeithiol yn gofyn am gynnwys cymuned yr ysgol gyfan, nid dim ond canolbwyntio ar dybiaethau ystrydebol ynglŷn â’r ymosodwyr a’u dioddefwyr.

Trwy ddilyn y 10 cam isod, bydd eich ysgol yn cymryd cam sylweddol ar y ffordd i greu diwylliant cynhwysol i bob disgybl. Os ydych chi eisiau mwy o gymorth neu wybodaeth, cysylltwch â rhai o’r mudiadau a restrir drosodd.

addysg i bawb

6

Integreiddio cyfeiriadedd rhywiol wrth gynllunio cwricwlwm

Ceisiwch integreiddio dysgu am gyfeiriadedd rhywiol i’r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd. Clustnodwch bobl lesbiaidd a hoyw yn ffurfiol, yn yr hyn a ddysgir, ac yn anffurfiol, mewn posteri, gwasanaethau boreol ayb.

7

Defnyddio profiadau o’r tu allan

Gall pobl sy’n gweithio i asiantaethau allanol (megis elusennau pobl lesbiaidd a hoyw, grwpiau ieuenctid neu linellau cymorth ffôn lleol) gynnig cefnogaeth, y tu mewn a’r tu allan i’r dosbarth, er mwyn mynd i’r afael â bwlio homoffobig a materion perthnasol.

8

Annog modelau rôl

Mae ysgolion sydd â staff, llywodraethwyr, rhieni a/neu ddisgyblion sy’n agored hoyw yn rhoi addysg fwy priodol i bawb ac maent yn helpu i adlewyrchu’r gymuned lle maen nhw’n byw. Gall athrawon a disgyblion gyhoeddi eu hunain yn bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol mewn amgylchedd addysgol. Ydych chi’n barod ac yn abl i’w cefnogi?

9

Peidiwch â gwneud tybiaethau

Peidiwch â chymryd bod, neu y bydd, pob disgybl mewn dosbarth yn heterorywiol. Peidiwch â chymryd bod pob athro/awes mewn ysgol neu goleg yn heterorywiol.

10

Dathlu cyflawniadau

Tynnwch sylw at bob llwyddiant, megis newid y cwricwlwm, neu leihau achosion o fwlio - er enghraifft trwy’r gwasanaethau boreol, cylchlythyrau, hysbysfyrddau neu wefannau.

‘Yn y diwedd, pan oeddwn i'n 16, mi ges i athrawes roeddwn i’n gwybod ei bod hi’n hoyw. Roedd pawb yn yr ysgol yn ei pharchu ac roedd pawb eisiau bod yn ei dosbarth. Gwnaeth ei dylanwad hi wahaniaeth mawr i’m hunanhyder, ar ôl blynyddoedd o fwlio homoffobig.’

Mae homoffobia’n bodoli mewn ysgolion, mae ei effaith yn amlwg ac mae athrawon, yn aml, yn awyddus i helpu. Mae Addysg i Bawb yn alwad ar bobl i weithredu. Ei nod yw arfogi addysgwyr gyda’r cyfryngau a’r cyngor sydd eu hangen arnynt i greu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer pob disgybl, er mwyn cefnogi pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol a chreu amgylchedd dysgu iach ac agored lle gall pawb ddysgu. Am fwy o wybodaeth am yr hyn y gall ysgolion ei wneud i gefnogi'r ymgyrch, ymwelwch â gwefan Addysg i Bawb yn www.stonewall.org.uk/educationforall

Adnoddau

www.stonewall.org.uk
Gellir lawrlwytho canllaw ymarfer gorau Stonewall oddi ar y wefan hon. Ceir hefyd amrywiol ddolenni at addysg, gwybodaeth ac adnoddau, mudiadau cefnogi ac ymgyrchoedd gwrth-fwlio.

www.lgbtyouth.org.uk
Mae LGBT Youth Scotland yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth uniongyrchol i bobl ifanc ledled yr Alban ac maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu polisïau a hyfforddiant.

www.fflag.org.uk
Mae FFLAG (Teuluoedd a Chyfeillion Pobl Lesbiaidd a Hoyw) yn ymroddedig i gefnogi rhieni a’u meibion a’u merched hoyw, lesbiaidd a deurywiol.

www.eachaction.org.uk
Mae EACH yn herio homoffobia trwy addysg mewn ysgolion ac maent yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill. Eu rhif rhadffon ar gyfer pobl ifanc yw 0808 1000 143

www.wiredforhealth.gov.uk
Mae Wired for Health yn borth a redir gan yr Asiantaeth Datblygu Iechyd i roi gwybodaeth am y Rhaglen Ysgolion Iach Genedlaethol. Mae Stand up for Us yn adnodd i helpu ysgolion i herio homoffobia trwy ddatblygu amgylchedd cynhwysol a mwy diogel. Mae’n berthnasol i’r blynyddoedd cynnar trwodd i addysg uwchradd ac mae’n cynnwys ysgolion arbennig, unedau oddi-ar-safle ac unedau atgyfeirio disgyblion.

www.glsen.org
Mae’r Rhwydwaith Hoyw, Lesbiaidd a Strêt yn fudiad Americanaidd sy’n cynnig ystod wreiddiol o weithgareddau dosbarth a gwybodaeth gefndir.

www.schools-out.org.uk
Ceir manylion ynghylch llyfrau, fideos a phecynnau hyfforddi ar gyfer athrawon

Cysylltiadau

www.stonewall.org.uk
educationteam@stonewall.org.uk

Beth yw Addysg i Bawb?

Mae Addysg i Bawb yn ymgyrch a lansiwyd yn 2005 i sicrhau nad yw mynediad at addysg yng ngwledydd Prydain yn cael ei gyfyngu gan gyfeiriadedd rhywiol. Fe’i trefnwyd gan Stonewall, mewn partneriaeth â FFLAG a LGBT Youth Scotland, ac fe’i cefnogir gan amrywiol fudiadau ledled Gwledydd Prydain.

Ffynonellau

Douglas, N., Warwick, I., Kemp, S., & Whitty, G., (1997) Playing it Safe: responses of secondary school teachers to lesbian and gay pupils, bullying, HIV and AIDS education and Section 28. Llundain, Ymddiriedolaeth Terrence Higgins.

Malcolm, H., Wilson, V., Davidson, J. & Kirk, S. (2003) Absence from School: a study of its causes and effects in seven LEAs. Llundain: Yr Adran Addysg a Chyflogaeth. Adroddiad Ymchwil 424.

Rivers, I. (2000) Social exclusion, absenteeism and sexual minority youth, Support for Learning, 15(1), 13-18

Trotter (2001) Challenging assumptions around sexuality: services for young people, Youth & Policy, 71, 25-43

Stonewall

supported by IBM